# Cadw

# Croeso i Gastell Conwy


Y dref gaerog fwyaf cyflawn yng Nghymru

## Beth i'w weld yng Nghastell Conwy

1. Gofalus! Mae 'tyllau llofruddio' yn gwarchod y porth yma oddi uchod — ffordd gyfleus o daflu pethau i lawr i ladd eich ymosodwyr.
2. Chwiliwch am y cleddyf sy'n rhan o 'Dalaith Llywelyn'. Dyma ddarn o gelf sy'n cyfleu ysbryd y Cymry.
3. Dim ofn uchder? Byddwch wrth eich bodd â'r golygfeydd syfrdanol a gewch wedi dringo Tŵr y Brenin.
4. Dringwch risiau un o'r tyrau cadarn a cherdded yr holl ffordd o gwmpas bylchfuriau'r castell. Gwefreiddiol!
5. Cymerwch gip i mewn i Dŵr y Carchar. Druan â'r carcharorion! Dim ond un ffenest fach, fry uwchben, oedd ganddynt yn olau. Welwch chi hi?
6. Rhyfeddwch pa mor dda mae'r ystafelloedd brenhinol canoloesol wedi'u cadw. Mor dda fel bod y brenin yn dal yno (wel, ei ben, o leiaf).
7. Edmygwch y ffenestri lliw cywrain yng nghapel addurnedig Edward, a chwiliwch am y siambr breifat lle'r oedd yn gwylio'r gwasanaethau.
8. Mwynhewch y golygfeydd o'r Barbican Dwyreiniol lle bu gerddi'r castell. Cewch edrych i lawr dros aber afon Conwy a'i thair pont, yn cynnwys pont grog ysblennydd Thomas Telford.
9. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TREFTADAETH Y BYD · WORLD HERITAGE · PATRIMOINE MONDIAL




Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

cadw.llyw.cymru

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.